# Arweinyddiaeth Greadigol

# - Bod yn Ddewr

## Pwrpas

Mae arweinyddiaeth greadigol yn gofyn am y gallu i arwain yn ddewr. Byddwch yn ddigon dewr i chwalu rhagdybiaethau a mythau ynghylch creadigrwydd a dewrder i archwilio eich creadigrwydd eich hun, a dod ag eraill gyda chi ar y daith ddysgu. Mae'r gweithgaredd hwn yn eich gwahodd i ystyried profiadau pobl eraill fel ffordd o fyfyrio ar eich potensial eich hun i arwain meddwl yn greadigol, ac i wneud hynny'n ddewr!

## Adnoddau a pharatoi

Fideos (Bethan Marks/Lisa Hall/Andy Moor)

Erthygl blog (Louise Stoll)

Adnodd Arferion Meddwl Creadigol

**Hyd**

20 munud

## Dechrau arni

Cyflwynir tri safbwynt ar Arweinyddiaeth Greadigol isod, dau o'r cyd-destun Saesneg ac un o'r cyd-destun Cymreig, lle maent yn cyflwyno cwricwlwm newydd ar hyn o bryd.

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
|   |   |   |   |   |
| | | | | |

### Cam 1

Gwyliwch un, dau neu bob un o'r fideos arweinwyr

https://www.youtube.com/watch?v=ChBKranzvXs
https://www.youtube.com/watch?v=rmWDPUFvXF4
https://www.youtube.com/watch?v=S4TPIyB3iDs

### Cam 2 - (17 munud)

Darllenwch blog yr Athro Louise Stoll

## Cyd-fyfyrio

Byddem yn eich annog i wneud nodiadau o'ch ymatebion i'r cwestiynau myfyrio ac i ddal eich dysgu.

- Pa gamau arwain allweddol y mae'r arweinwyr yn y fideos a'r blog wedi cymryd rhan ynddynt?
- Sut mae'r ysgol(ion) a Louise yn modelu meddwl creadigol?
- I'r rhai sydd wedi gwylio mwy nag un fideo, beth sy'n debyg a beth sy'n wahanol yn eu dulliau a beth allai fod yn rhai o'r rhesymau am hynny?
- Mae arweinwyr yn y fideos yn sôn am bwysigrwydd cefnogaeth staff, beth wnaethon nhw i gyflawni hyn?
- Pa gwestiynau fyddech chi'n eu gofyn i'r arweinwyr?